| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 8 Gorffennaf 2025 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Julie Matthews / Gary Williams |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Helen Vaughan-Evans, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau |
| **Awdur yr adroddiad** | Emma Horan, Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad |
| **Teitl** | Hunanasesiad y Cyngor o'i Berfformiad rhwng 2024 a 2025 ac Adroddiad Diweddariad ar Berfformiad rhwng mis Hydref 2024 a mis Mawrth 2025 |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â Hunanasesiad y Cyngor o'i Berfformiad rhwng 2024 a 2025 ac yn cynnwys ein dadansoddiad diwedd blwyddyn o'r cynnydd a'r heriau wrth gyflawni ein hamcanion perfformiad allweddol (hynny yw, themâu ein Cynllun Corfforaethol) ynghyd ag Adroddiad Diweddariad ar Berfformiad rhwng mis Hydref 2024 a mis Mawrth 2025. [1]

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae adrodd yn rheolaidd yn adlewyrchu ein gwerthoedd a'n hegwyddorion. Mae'n un o'r gofynion monitro hanfodol ym methodoleg rheoli perfformiad y Cyngor ac yn ofynnol er mwyn cyflawni ein dyletswyddau statudol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur Cymru 2011, a'n cyfraniadau at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd, gan gyflwyno adroddiadau bob chwe mis i bwyllgorau Craffu a'r Cabinet, ac adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor Sir.

[1] Sylwch y cyflwynir y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cynllun gweithredu Asesu Perfformiad gan Banel, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Chwefror, yn ein hadroddiad nesaf, ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill i fis Medi 2025, a gyhoeddir yn yr hydref.

2.2 Ceisir cymeradwyaeth ynghylch cynnwys yr Hunanasesiad o Berfformiad 2024 i 2025 (Atodiad I) gyda'r bwriad o'i gyhoeddi a'i rannu gyda'r phartion perthnasol yn unol â'n dyletswyddau statudol.[2]

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Y Cyngor Sir i nodi er gwybodaeth ein Hadroddiad Diweddariad ar Berfformiad chwe-misol mis Hydref 2024 i fis Mawrth 2025 (Atodiad II), y diweddariad ar weithgareddau gwella a ddiweddarwyd yn flaenorol (Atodiad III) a'r adroddiad Llais y Dinesydd (Atodiad IV).

3.2 Y Cyngor Sir i nodi'r adborth gan y Pwyllgorau sydd wedi ei grynhoi yn Atodiad V.[3]

3.3 Yn amodol ar unrhyw newidiadau cytunedig, bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Hunanasesiad ar Berfformiad 2024 i 2025 (Atodiad I).

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Yn Atodiad I, cyflwynir ein Crynodeb Gweithredol sy'n amlygu uchafbwyntiau ein perfformiad wrth gyflawni ein hamcanion (hynny yw, themâu ein Cynllun Corfforaethol, sef ein Hamcanion Lles a Chydraddoldeb) a'r saith o feysydd llywodraethu a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Yn y Crynodeb Gweithredol, rydym wedi crynhoi ein pump cyflawniad allweddol a'n pump her allweddol.

4.2 Atodiad II yw ein Hadroddiad Diweddariad ar Berfformiad chwemisol (rhwng mis Hydref 2024 a mis Mawrth 2025), sy'n rhan o'n trefn hunanasesu barhaus ac yn cynnwys yr holl dystiolaeth (mewnol ac allanol) a dadansoddiadau y gellir eu defnyddio wrth ateb y cwestiynau 'Pa mor dda ydyn ni'n ei wneud?', 'Sut ydyn ni'n gwybod?', a 'Beth allwn ni ei wneud yn well a sut'? Hwn yw'r adroddiad perfformiad cyntaf yn sgil diwygio fframwaith rheoli perfformiad ein Cynllun Corfforaethol.[4]

---

[2]Fel nodir yn Adran 91, 10 (c) Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
[3] Mae'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 bod y Cyngor yn ystyried argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn eu tro a phenderfynu eu derbyn ai peidio. Os na dderbynnir argymhelliad ar gyfer newid, mae'n rhaid rhoi sail resymegol ar gyfer hynny. Mae Atodiad V yn crynhoi argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer newid ac unrhyw gamau a gymerwyd / a gynigir er sylw'r Cabinet.
[4] Mae ein fframwaith rheoli perfformiad yn cynnwys dangosyddion sy'n gyson â'r canlyniadau y bwriadwn eu cyflawni. Yn aml iawn, mae a wnelo'r rhain â heriau hirdymor - megis tlodi, yr economi, tai neu allyriadau carbon - nad oes gennym lawer o ddylanwad arnynt (er enghraifft, rhestri aros tai neu gychwyn busnesau). Er gwaethaf hynny, mae'r canlyniadau hynny'n ganolog i'n huchelgais i gyflawni'r Sir Ddinbych a Garem. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd yn monitro pa mor effeithiol y darparwn wasanaethau o fewn ein rheolaeth. Er enghraifft, rydym yn olrhain ymdrechion i leihau tlodi drwy atal digartrefedd neu wella mynediad at dai drwy adeiladu tai Cyngor newydd.

4.3 Nodwyd naw o gamau gwella drwy drafod yr adroddiad hwn:

I. Ystyried perfformiad yng nghyd-destun canran y ffyrdd a phalmentydd wedi'u difrodi a wnaed yn ddiogel o fewn y cyfnod targed (CAT1 – Diffygion Categori 1 yr ymdriniwyd â nhw o fewn yr amserlen), sydd heb gyrraedd y targed amser o 95% ers rhai blynyddoedd, gan nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar y darperir cyllid ychwanegol. Mae'r gwasanaeth yn dal i'w chael yn anodd bodloni gofynion yr ased â'r adnoddau cyllidebol a staffio prin sydd ar gael ac mae angen trafodaeth wirioneddol am y cyfleoedd i wella hynny a'r hyn y mae perfformiad gwael parhaus yn debygol o'i olygu gan ystyried y disgwylir mai dwysau y bydd effeithiau llifogydd, tirlithriadau a gwres ar gyflwr ffyrdd a chysylltedd cymunedau.

II. Yn dilyn y briffiadau cyfathrebu ddechrau 2025, mae angen i'r Cyngor wella ei gyfathrebu'n fewnol ac allanol gyda staff, preswylwyr, aelodau etholedig, partneriaid, busnesau a chyrff rheoleiddio ynglŷn â'i waith Trawsnewid.

III. Sicrhau y cyflawnir y camau lliniaru yn yr asesiad effaith gronnol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Fwrdd y Gyllideb a Thrawsnewid ynglŷn â'r cynnydd.

IV. Adolygu'r gwelliant wrth gwblhau sesiynau un-i-un a nodi'r rhesymau pam nad yw'r chwarter o staff cymwys sy'n weddill wedi cael sesiwn un-i-un yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dylai'r gwaith gwella ganolbwyntio ar annog rhagor o sesiynau un-i-un fel dull effeithiol o gefnogi staff a sefydlu diwylliant cadarnhaol sydd yn canolbwyntio ar werthfawrogi staff ac amrywiaeth a hyrwyddo lles.

V. Dylai'r Cyngor cyfan, gan gynnwys aelodau etholedig a swyddogion, ystyried sut y bydd lleihad neu newid yn ein gallu i gyflawni'n effeithio ar ein hymrwymiadau ynghylch darparu gwasanaeth a sicrhau eu hansawdd, yn enwedig os gallai hynny siomi cwsmeriaid, a chytuno ar ddulliau ar gyfer gwell cyfleu hynny'n well i fudd-ddeiliaid.

VI. Gan nodi'r wasgfa i neilltuo £250,000 ar gyfer cyflawni'r Strategaeth Hinsawdd a Natur yn unol â'r gyllideb a gymeradwywyd ym mis Hydref, dylai Bwrdd Gwyrdd y Cyngor ymchwilio i'r bwlch rhwng y cynnydd a wnaed a'n targed i fod yn Ddi-garbon Net erbyn 2030, asesu ffyrdd realistig o sicrhau cyllid ac asesu ein hawydd i ddwysau ein hymdrechion.

VII. Yn unol â'r £500,000 ychwanegol sydd wedi'i addo ym maes addysg i fynd i'r afael â phroblemau â lles dysgwyr, presenoldeb, ymddygiad a thlodi, dylai'r Cyngor arfarnu mor effeithiol yw'r ymyriadau presennol sydd â'r nod o leihau'r bwlch mewn cyfraddau cyrhaeddiad a gwaharddiadau (rhwng y rhai sy'n gymwys ac anghymwys am brydau ysgol am ddim) ac ystyried a oes angen targedu'r gwaith yn fanylach.

VIII. Ystyried sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y'u pennwyd yn Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2024-2025.

IX. Asesu a phennu costau trefniadau gwahanol ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau statudol mewn perthynas ag adborth gan fudd-ddeiliaid, a wneir ar hyn o bryd drwy'r Arolwg Budd-ddeiliaid blynyddol, er mwyn bod yn fwy ffyddiog yn y data a gesglir.

4.4 Darparu adroddiadau dilynol ynglŷn â'r camau gwella a nodir yn ein hadroddiadau diweddariad ar berfformiad chwemisol. Er hwylustod, mae Atodiad II yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer yr holl gamau gwella y dechreuwyd arnynt ers 2023.

4.5 Mae Atodiad IV yn cyflwyno adroddiad newydd Llais y Dinesydd, sydd â'r nod o greu darlun cyflawn ar sail amrywiaeth o ddata i gryfhau dull y Cyngor o reoli perfformiad. Anogir Awdurdodau Lleol ymhob cwr o Gymru i gynnwys mwy o safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth wrth wneud penderfyniadau a rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau eu penderfyniadau ar fywydau pobl. Daw hynny yn sgil adroddiad cenedlaethol gan Archwilio Cymru yn galw am weithredu yn y maes hwn. Er bod angen mwy o waith i ganfod data addas[5], mae'r adroddiad hwn yn gam cyntaf at gyfuno amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol ynghylch ein perfformiad yn ogystal â'r Arolwg Budd-ddeiliaid blynyddol. Bwriadwn gyhoeddi'r adroddiad hwn ar-lein gyda'n hadroddiadau perfformiad eraill. Drwy gyfuno ymatebion o wahanol ffynonellau i'r un math o gwestiynau - megis arolygon boddhad tenantiaid (cadarnhaol) ac arolygon budd-ddeiliaid (negyddol) ym maes tai - gallwn weld darlun diddorol a chymhleth. Ein nod yw amlygu safbwyntiau budd-ddeiliaid drwy eu gosod yng nghyd-destun y data ar wir berfformiad, sydd wedi'u meincnodi mewn rhai achosion.

4.6 Yn Atodiad V, ceir crynodeb o'r newidiadau y mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n eu hargymell (gweler troednodyn 3).

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae'r Hunanasesiad o Berfformiad yn cynnwys arfarniad o lwyddiant y Cyngor wrth gyflawni themâu ei Gynllun Corfforaethol.

---

[5] Cynigir cam gweithredu mewn perthynas â hyn (gweler 4.3, ix) gan fod aelodau wedi mynegi pryderon nad yw'r dull arolygu a ddefnyddir yn ddibynadwy o safbwynt ystadegol a'i bod yn bosib nad yw'r canfyddiadau'n cynrychioli barn y mwyafrif.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw gost ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les a pha newidiadau sydd wedi, neu a fydd yn cael eu cyflwyno i'r prosiect neu'r ymagwedd o ganlyniad i'r asesiad?

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer y Cynllun Corfforaethol ei hun, sydd wedi'i ddiwygio wrth adolygu'r Cynllun Corfforaethol, fel y cymeradwywyd gan y Cyngor Sir ym mis Chwefror 2024.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Datblygwyd yr adroddiadau gan y Tîm Cynllunio Strategol mewn ymgynghoriad â gwasanaethau'r Cyngor. Mae trafodaeth wedi'i chynnal yn Adolygiad Cyfran y Cabinet a Thîm Arwain Strategol (21 Mai), Briff y Cabinet (2 Mehefin), y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (11 Mehefin) a Chraffu Perfformiad (12 Mehefin) a'r Cabinet (24 Mehefin). [6]

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes angen datganiad gyda'r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Byddai methu â chyhoeddi ein Hunanasesiad yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Archwilio Cymru gyda goblygiadau i enw da. Mae risg y bydd perfformiad gwael yn cael ei adrodd allan o'i gyd-destun. Ar y sail hon, rydym eisoes wedi rhannu'r adroddiadau drafft gyda'r Tîm Cyfathrebu.

---

[6] Ar ôl ei gymeradwyo, bydd yr Hunanasesiad yn cael ei rannu gyda phartïon fel nodir yn Adran 91, 10 (c) Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Rhan 6, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (pennod 1, adran 89).

11.2. Rhan 2, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (adran 13).

11.3. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (adran 16); a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau sy’n ddarostyngedig i ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Cymru) 2021.